Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(157)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o'r Cwricwlwm ac Asesu (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru
http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/Lleihau-Llosgi-Bwriadol/Pages/default.aspx

Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/frastrate

gy/?skip=1&lang=cy

Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru
http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/roadsafety/?skip=1&lang=cy

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Drafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru (30 munud)**

**6 Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (15 munud)**

**NDM5336 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2013.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol

**7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)**

**NDM5338 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

Gosodwyd Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na fu'r bil drwy broses pwyllgor Cyfnod 1.

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y

Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

**8 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)**

**NDM5339 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**9 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-2013 (60 munud)**

**NDM5337 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012-13, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 26 Medi, sy'n amlygu'r gwaith a wneir gan y Comisiynydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi cyhoeddi safonau iaith Gymraeg yn dilyn gwaith y Comisiynydd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl gyrff sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn gweithredu polisi'r iaith Gymraeg.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgynghori'n eang ar ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a bod targedau cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer eu gweithredu.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012-13

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Hydref 2013 i'w hateb ar 22 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i sicrhau pwerau benthyg i Gymru? OAQ(4)1289(FM)W

2. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyddiant Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 i leihau'r defnydd o fagiau plastig? OAQ(4)1287(FM)W

3. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y Canllawiau Clinigol gan NICE nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru? OAQ(4)1288(FM)

4. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio sgiliau menywod yn economi Cymru? OAQ(4)1279(FM)

5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnwys ei drafodaethau diweddar â Phrif Weinidogion Llywodraethau eraill y DU? OAQ(4)1284(FM)W

6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cynnydd a wnaed i ddatblygu economi Cymru? OAQ(4)1278(FM)

7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa strategaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i leihau nifer yr achosion o wenwyn carbon monocsid? OAQ(4)1291(FM)

8. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae cynnydd mewn biliau tanwydd yn effeithio ar gartrefi yng Nghymru? OAQ(4)1280(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar 16 Hydref? OAQ(4)1294(FM)

**10. Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa ddiwydiannau y mae am eu denu i Gymru yn y dyfodol? OAQ(4)1281(FM)

**11. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw strategaethau ymgysylltu sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o faterion datganoledig? OAQ(4)1290(FM)

**12. David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarth Bae Abertawe? OAQ(4)1292(FM)

**13. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo pobl y mae'r newidiadau mewn budd-daliadau yn effeithio arnynt? OAQ(4)1286(FM)

**14. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Gwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair sy'n cychwyn yng Nghymru yr wythnos hon? OAQ(4)1285(FM)W

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau heintiadau clostridiwm difficile yng Nghymru? OAQ(4)1293(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Toriad: Dydd Llun 28 Hydref 2013 - Dydd Sul 3 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 5 Tachwedd a dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 12 Tachwedd a dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 19 Tachwedd a dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

*************************************************************************

Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Teithio at Ddyfodol Gwell - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Cyfleoedd a'r Heriau y mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwynebu (30 munud)
- Dadl: Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

Dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud) – gohirwyd

Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Gynhadledd Fawr – y camau nesaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratoadau ar gyfer Tywydd y Gaeaf (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf (60 munud)

Dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Bresenoldeb ac Ymddygiad (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)

Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cyflwyno'r Bil Tai (Cymru) (60 munud)
- Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15 (120 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)